



innogy

Y Diweddraf am Fuddsodiad Cymunedol

Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa: Ebrill 2017



innogy yn buddsoddi yn eich cymuned

Mae gan innogy (RWE Innogy UK, gynt) enw da ers dros 20 mlynedd am fuddsoddi yn y cymunedau sy'n amgylchynu ei ddatblygiadau. Bydd Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa yn darparu pecyn buddsoddi cymunedol gwerth **£459,200** y flwyddyn, a hwnnw wedi ei gysylltu â'r mynegai, ac a fydd ar gael cyn gynted ag y bydd y fferm wynt yn gwbl weithredol. Disgwylir i hynny ddigwydd yng Ngwanwyn 2018. **Mae hyn yn golygu buddsoddiad o fwy nag £11 miliwn dros oes y fferm wynt.**

Mae innogy wedi ymrwmo i weithio gyda chymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol i deilwra'r gronfa i'w hanghenion er mwyn sicrhau y gweithredir y buddsoddiad sylweddol hwn yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib. Rydym eisoes wedi dechrau ar y broses hon, oherwydd yn 2013 comisiynwyd ymgynghorwyr annibynnol i gynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda chymunedau lleol, Cynghorwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ar flaenoriaethau posibl ar gyfer y gronfa. Cymerodd dros 135 unigolyn a 38 sefydliad lleol ran. Mae canlyniadau'r ymchwil a'r ymgynghoriad helaeth hwn yn cael eu hadlewyrchu ym **Mhroffil Cymunedol Coedwig Brechfa**, y gellir ei weld ar ein gwefan: www.innogy.com/brechfaforest

Uchafbwyntiau Proffil Cymunedol Coedwig Brechfa

Roedd y themâu allweddol a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- galluogi cyfleoedd ystyrlon am waith sy'n talu'n well
- ehangu'r diwydiant twristiaeth i annog pobl i aros yn yr ardal am gyfnod hwy
- cefnogi datblygu/gwella cyfleusterau cymunedol
- rhoi cymorth i fusnesau drwy grantiau a benthyciadau fforddiadwy
- cefnogi datblygu mentrau cymdeithasol/cymunedol
- gwella cyfathrebu, gan gynnwys y ddarpariaeth o ran ffonau symudol, band eang a chludiant
- hybu'r cyflenwad o dai fforddiadwy
- cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy ar gyfer cartrefi a busnesau lleol


"Mae angen cymuned weithio fywiog arnom - heb bobl ifanc fydd yna ddim cymuned"

"Mae angen i ni fuddsoddi mewn rhesymau i ddenu pobl yma"



Strwythur Cronfa Fuddsoddi Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa yn fras

Ar ôl ystyried argymhellion y Proffil Cymunedol yn ofalus, mae Innogy yn bwriadu mabwysiadu'r strwythur cyffredinol canlynol ar gyfer y gronfa:



Cronfa Fuddsoddi Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa

- £459,200 y flwyddyn gydol oes y fferm wynt (hyd at 25 mlynedd)
- Ar gael cyn gynted ag y bydd y fferm wynt yn gwbl weithredol
- Er budd y ddwy gymuned sy'n ffinio â'r fferm wynt a'r ardal ehangach
- Yn cael ei gweinyddu'n broffesiynol yn annibynnol ar innogy

Bydd y Gronfa Gymunedol yn cynnwys dwy ran sydd ar wahân ond yn gysylltiedig : Cronfa'r Gymuned Leol a'r Gronfa Ranbarthol

- Y bwriad yw cadw ychydig o hyblygrwydd o ran penderfynu sut y bydd incwm blyneddol y gronfa yn cael ei rannu rhwng y ddwy gronfa.
- Y bwriad yw mabwysiadu strwythur lle na fydd unrhyw gais cadarn i Gronfa'r Gymuned Leol yn methu ar draul y Gronfa Ranbarthol.

Cronfa'r Gymuned Leol

- Cefnogi'r cymunedau sydd agosaf at y safle. Mae'r union ardal a fydd yn cael budd eto i'w benderfynu gan Innogy.
- Meini prawf eang a phroses ymgeisio syml.
- Panel o wirfoddolwyr sy'n byw, yn gweithio neu'n gwirfoddoli yn yr ardal a fydd yn elwa o'r gronfa sy'n penderfyn ar y dyfarniadau.
- Wedi ei dylunio i fod yn hyblyg er mwyn galluogi'r panel i sicrhau bod y cyllid yn cael yr effaith fwyaf bosib ac yn ymateb i'r newid yn anghenion y gymuned dros oes y gronfa (hyd at 25 mlynedd).

Y Gronfa Ranbarthol

- Ar gael i ymgeiswyr o'r ardal ehangach y mae Innogy eto i benderfynu arni.
- Yn cynnwys themâu penodol er mwyn gostwng cystadleuaeth i lefel hydrin.
- Bydd themâu'r gronfa yn berthnasol i gymunedau Coedwig Brechfa a'r ardal ehangach.
- Yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y gweinyddwr ac Innogy i ymateb i flaenoriaethau sy'n newid dros oes y gronfa.
- Penderfyniadau ar ddyrannu'r cyllid yn cael eu gwneud gan banel o bobl broffesiynol gydag arbenigedd a gwybodaeth am themâu'r gronfa a chynrychiolydd o banel cronfa'r gymuned leol i hyrwyddo a hybu cysylltiadau rhwng y ddwy gronfa.

Y Camau Nesaf: Prosesau Datblygu Cronfeydd Innogy

O safbwynt datblygu **Cronfa'r Gymuned Leol**, y camau nesaf y bydd Innogy yn eu cymryd fydd pennu'r ardal a fydd yn cael budd o'r gronfa. Bydd yr ardal fudd arfaethedig hon wedyn i'w gweld ar ein gwefan, ac yn cael cyhoeddusrwydd yn ein e-lythyrau am y fferm wynt a byddwn yn ymgynghori'n uniongyrchol yn ei chylch gyda'r rhanddeiliaid lleol allweddol sydd agosaf at y fferm wynt. Wedyn, bydd Innogy yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn ofalus wrth ddiffinio'r ardal derfynol a fydd yn cael budd o'r gronfa.

O ran datblygu'r **Gronfa Ranbarthol**, mae Innogy yn bwriadu ffurfio Grŵp Cyngori ar y Gronfa Fuddsoddi i helpu i lunio'r gronfa er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad sylweddol hwn yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib.

Grŵp Cyngori ar y Gronfa Fuddsoddi

Yn 2017, bydd Grŵp Cyngori ar Gronfa Fuddsoddi Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa yn cael ei sefydlu, a'i gylch gwaith fydd rhoi adborth a chynghor manwl i Innogy er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r gronfa ranbarthol. Mae hwn yn ddull tebyg i'r un yr oedd Innogy wedi'i ddefnyddio yn llwyddiannus wrth ddatblygu Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr (gweler trosodd).

Bydd croestoriad o sefydliadau ac unigolion sydd ag ystod eang o sgiliau a phrofiadau perthnasol yn cael eu gwahodd i ymuno â'r grŵp. Mae'n debyg y bydd gan yr aelodau gylch gwaith strategol eang, yn hytrach na'u bod yn cynrychioli buddiannau personol. Ond, bydd y ffordd yr eir ati i gyflawni gwaith y grŵp yn agored ac yn dryloyw a bydd cofnodion cyfarfodydd ar gael ar ein gwefan.

Datblygu Cronfa - Astudiaeth Achos: Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr, Gogledd Cymru

Mabwysiadodd innogy ddull partneriaeth gyda nifer o randdeiliaid wrth ddatblygu Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr a fydd yn buddsoddi oddeutu £19 miliwn dros oes y fferm wynt alltraeth. Aeth grŵp cynghori, gydag aelodau o'r sectorau cyhoeddus, preifat, addysg a hyfforddiant a'r sector gwirfoddol ati i gydgyfrannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth leol i ddatblygu'r strwythur a'r dull cyflawni gorau posib ar gyfer y gronfa, gan adeiladu ar yr adborn a gafwyd o'r ymgynghoriad cymunedol ar y gronfa. Esgorodd y bartneriaeth hon ar gronfa bwrpasol, oedd wedi'i theilwra i roi sylw i fylchau mewn cyllid ac i adeiladu ar arferion cyllido llwyddiannus oedd yn bodoli eisoes, gan sicrhau bod y cronfeydd newydd, hyblyg hyn yn cael yr effaith fwyaf bosib a'u bod yn gallu darparu ymhell y tu hwnt i'r buddsoddiad gwreiddiol o £19 miliwn.

Cam 1 - Ennyn diddordeb y gymuned ehangach

Ym mis Chwefror 2012, gwrandawodd Innogy ar sylwadau dros 1000 o sefydliadau ac unigolion ar flaenoriaethau, strwythur a gweithrediad posib Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ba flaenoriaethau y dylai'r gronfa roi sylw iddynt, sut y dylid ei rhedeg a pha gymunedau a ddylai gael budd ohoni.

Cam 2 - Y Grŵp Cynghori

Casglodd Innogy Grŵp Cynghori at ei gilydd o blith rhanddeiliaid lleol oedd yn cynrychioli ardal Gogledd Cymru i roi cyngor a chynnig arbenigedd i gefnogi Innogy gyda'r gwaith o ddatblygu canlyniadau'r ymgynghoriad a llunio strwythur ar gyfer y gronfa. Bu'r grŵp hefyd yn archwilio sut y bydd ein cyllid yn gweithio ochr yn ochr â gweithgareddau a ffrydiau cyllido eraill er mwyn sicrhau dull mwy cydgyssylltiedig o gyllido. Roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdod Lleol a Sector Gwirfoddol pob un o'r tair sir (Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint) yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sector Addysg Uwch, mentrau cymdeithasol a'r sector busnes. Mae'r Grŵp Cynghori yn cyfarfod unwaith y mis a rhannwyd nodiadau o'r cyfarfodydd ar wefan Innogy er mwyn sicrhau tryloywder.



Dyma'r themâu cychwynnol y cytunwyd arnynt ar gyfer y gronfa:


Thema 1 – Creu cymunedau cryf, cydlynus a chynaliadwy

Thema 2 – Datblygu cymunedau ffyniannus a mentrus gyda thŵf economaidd cryf

Thema 3 – Lleihau tldi ac anghydraddoldeb mewn cymunedau.

Cam 3 – Gweinyddu'r Gronfa

Roeddem wedi cynnal proses gaffael agored i ganfod sefydliad addas i redeg y gronfa. Roedd amrediad o sefydliadau wedi dangos llawer iawn o ddiddordeb yn y cyfle anarferol a chyffrous hwn. Hysbysebwyd y cyfle i dendro yn y cyfryngau lleol, a derbyniodd Gwynt y Môr 12 datganiad o ddiddordeb a chyflwynwyd wyth cais am dendr llawn. Yn dilyn proses gyfnewid fanwl pleser o'r mwyaf i ni oedd penodi Cymorth Gwirfoddol a Chymunedol Conwy yn cydweithio â Chynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Sir y Fflint. I gael rhagor o wybodaeth am y gronfa, ewch i www.gwyntymorfund.cymru



"Mae'r gronfa yn gwneud gwaith gwych ac yn enghraifft ardderchog o'r model budd cymunedol"

Peter Davies, Cadeirydd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cronfeydd cymunedol ar waith: Astudiaeth Achos - Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr



Roedd Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gwynt y Môr wedi'i theilwra i fynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i ardal Gogledd Cymru. Un o brif flaenoriaethau'r gronfa oedd cefnogi creu swyddi, a chyfluoedd hyfforddi a gwirfoddoli. Yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r gronfa ddod yn weithredol, roedd ei dyfarniadau wedi galluogi creu 14 swydd newydd ac wedi diogelu 64.5 swydd arall. Yn ogystal â hyn, roedd 26 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn prosiect peirianneg gweithredol, gan ennill profiad tuag at her Menter a Chyflogadwyedd Bagloriaeth Cymru. Drwy gefnogi prosiectau sy'n creu ac yn cadw swyddi, cryfhau sgiliau, hybu a datblygu menter, mae'r gronfa yn cyfrannu tuag at ffyniant hirdymor yr ardal.

Un o'r prosiectau a gafodd grant oedd CBC Cymunedau G2G oedd wedi cyfrannu arian cyfatebol i'r grant o'u cyllid eu hunain i lansio prosiect newydd sy'n cynnig cymorth, cefnogaeth a hyfforddiant i unigolion sydd am sefydlu a datblygu eu busnesau eu hunain. Mae'r prosiect hefyd yn helpu cyfranogion i ddatblygu sgiliau newydd neu i wella sgiliau sydd ganddynt eisoes drwy roi cymorth a chefnogaeth un i un wedi'i seilio ar sgiliau 'parod i weithio', hunangyflogaeth a chymwysterau.

Hyd yma mae 32 o oedolion a phobl ifanc wedi cael cyfluoedd cyflogaeth cam nesaf/hyfforddiant, lansiwyd tair gwefan rhith-fusnes ac mae tair arall yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae nifer o wirfoddolwyr wedi ennill cymwysterau tebyg i Lefel 3 Cymorth Cyntaf Brys Pediatrig a Lefel 2 Hylendid Bwyd.



Llinell amser ddangosol ar gyfer datblygu'r gronfa

May 2017 – Recriwtio'r Grŵp Cyngori ar y Gronfa Fuddsoddi

Hydref 2017 – Proses gaffael i recriwtio gweinyddwr/wyr i redeg Cronfa Fuddsoddi Coedwig Brechfa

Hydref 2017 – Ymgynghoriad ar yr ardal arfaethedig a fydd yn cael budd o Gronfa'r Gymuned Leol

Gwanwyn 2018 (tua) – lansio'r Gronfa Fuddsoddi (yn amodol ar y fferm wynt yn dod yn gwbl weithredol a holl brosesau gweinyddu'r gronfa yn eu lle)



Cadwch eich bys ar y pwls

Gan na fydd yr arian ar gael nes bydd y fferm wynt yn gwbl weithredol, y ffordd orau o gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gronfa a datblygiad y fferm wynt ei hun yw:

Gwefan: www.innogy.com/brechfaforest
Twitter: [@innogy_uk](https://twitter.com/innogy_uk)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau anfonwch e-bost at: community.investment@innogy.com

Neu ysgrifennwch at:
Kathryn Harries
Swyddog Buddsoddi Cymunedol
Innogy Renewables UK Ltd
Uned 22, Canolfan Arloesedd Bae Baglan, Central Avenue, Parc Ynni Baglan, Port Talbot, SA12 7AX